Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## YMDRIN AG ADDYSGU UNED 1

» Mae gan Uned 1 nifer o nodweddion pwysig iawn:

- mae'n ymdrin â chyfnod hir o Hanes gan ei bod yn cyflawni'r meini prawf cenedlaethol bod rhaid astudio Hanes yn eang ar safon UG ac Uwch
- mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r ddealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol allweddol fel maent yn cael eu pennu yn Amcan Asesu 1
- mae ei ffocws ar sgiliau yn hytrach nag ar gynnwys a ffeithiau

» Pwysleisir bod rhaid addysgu'r holl gynnwys ym mhob opsiwn, er y pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r cynnwys gael ei addysgu'n drylwyr.

## CYNGOR YNGHYLCH SUT I DRIN CYNNWYS ASTUDIAETH O GYFNOD 4 UNED 1

**Er mwyn rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 4,** argymhellir bod yr athrawon yn anelu at ddefnyddio trosolwg cyffredinol o unigolion, digwyddiadau, termau a dyddiadau pwysig sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o bob topig neu fater. Mae'n hanfodol pwysleisio y dylid ystyried yr Astudiaeth o Gyfnod fel cyfanwaith a ble bo'n briodol, dylid gwneud cysylltau a chysylltiadau rhwng ac ar draws nodweddion a phriodweddau.

Un ffordd bosibl o reoli cynnwys yr opsiwn hwn yw dechrau pob prif dopig gyda thrafodaeth. Mae dechrau a diweddu'r astudiaeth o bob topig neu fater gyda thrafodaethau neu ddadleuon yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar nodweddion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r topig neu'r mater. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio'u sylw ar beth sydd bwysicaf yn y cyfnod a astudir.

Dylai'r athrawon wneud defnydd o'r amrywiaeth o drafodaethau awgrymedig fel dull o drefnu eu hymagwedd at gynnwys y fanyleb, ond ni ddylent gymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd cwestiynau arholiad yn cael eu gosod yn uniongyrchol neu eu seilio'n gyfan gwbl ar unrhyw rai o'r trafodaethau a awgrymir isod.

© Hawlfraint y Goron 2018

**Gellir rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 4 drwy gynnal cyfres o drafodaethau neu ddadleuon.** Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Trafodwch brif nodweddion gwleidyddiaeth a chymdeithas ym Mhrydain yn 1880
- Nodwch y prif heriau cymdeithasol a gwleidyddol a wynebai llywodraethau, 1880-1914
- Dadleuwch sut oedd ffawd y prif bleidiau gwleidyddol yn wahanol yn y cyfnod 1880-1951
- Dadleuwch yr effaith a gafodd rhyfel ar bobl Cymru a Lloegr hyd at 1951
- Trafodwch p'un ai roedd y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd yn amser o ddioddefaint a chaledi i'r holl bobl yng Nghymru a Lloegr, 1918-1939
- Dadleuwch y rhesymau dros estyn yr etholfraint i fenywod erbyn 1929
- Trafodwch i ba raddau newidiodd bywyd menywod er gwell ar ôl 1929
- Trafodwch p'un ai ddaeth Prydain yn gymdeithas decach i bawb ar ôl 1945
- Amlinellwch i ba raddau newidiodd bywyd yng Nghymru dros y cyfnod 1918-1980

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


cbac wjec

## GWEITHGAREDD 1: DEFNYDDIO DARLUNIAU I DRAFOD CYSYNIADAU

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn cyflwyno a dadlau rhai o'r trafodaethau awgrymedig yn yr opsiwn hwn mae'n bosibl defnyddio darluniau i gyflwyno neu ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r materion. Gellir cyflwyno, datblygu, dadlau neu adolygu'r rhan fwyaf o'r cynnwys penodedig sy'n cael ei drafod yn yr opsiwn hwn gan ddefnyddio darluniau. Gall y rhain fod yn gartwnau, paentiadau, printiau neu fapiau. Islaw rhoddir enghraifft sy'n canolbwyntio ar drafod y cysyniad o **ganlyniad.**

Mae'r cartŵn isod yn sylw cyfoes ar ddiwygio cymdeithasol. Defnyddiwch y cartŵn i ddechrau trafodaeth ar y rhesymau pam fod galw am newid yng nghymdeithas Prydain erbyn 1945.




Heb lwyddo i olrhain yr hawlfraint. A fyddech cystal â chysylltu â ni os chi yw deiliad yr hawlfraint.

## GWEITHGAREDD 2: Rhowch radd Coch/Melyn/Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau allweddol

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ar gyfer pob un o'r trafodaethau awgrymedig a roddir uchod, dylai'r dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â phob un. Er enghraifft, gellir ystyried y rhain am eu pwysigrwydd neu arwyddocâd ym mhob mater. I ddechrau'r broses hon, gallai'r dysgwyr ddefnyddio tri amlygwr lliw i roi seren Goch, Felen neu Werdd wrth ochr pob nodwedd.

Coch: Nodweddion sydd ag ond ychydig berthnasedd i'r ymholiad
Melyn: Nodweddion sydd â rhywfaint o berthnasedd i'r ymholiad
Gwyrdd: Nodweddion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymholiad.

Byddai **gweithgareddau cysylltiedig** yn cynnwys defnyddio amlygwyr lliw i amlygu'r nodweddion a'r priodweddau hyn mewn perthynas ag:

**Amser** – ydyn nhw'n ffactorau tymor hir neu dymor byr?

**Persbectif** – ydyn nhw'n ffactorau unigol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, neu'n gyfuniad o'r rhain?

Dyma enghraifft o drafodaeth awgrymedig:

**Nodwch y prif heriau cymdeithasol a gwleidyddol a wynebai llywodraethau, 1880-1914**

Rhowch radd Coch / Melyn Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau canlynol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth hon:

- System etholiadol annheg
- Yr angen am fynd i'r afael â thlodi
- Effaith Rhyfel y Boer
- Cwymp y Llywodraeth Geidwadol erbyn 1906
- Y dirywiad yn sefyllfa economaidd Prydain
- Y galw am effeithlonrwydd cenedlaethol
- Y galw am Bensiynau Henoed

© Hawlfraint y Goron 2018 

- Pryderon ynglŷn â'r iaith a'r diwylliant Cymraeg
- Twf yr Undebau Llafur
- Y galw am welliannau ym maes iechyd a thai
- Twf y Blaid Lafur newydd.

Nawr gwnewch y gweithgaredd eto ar gyfer unrhyw dri o'r trafodaethau awgrymedig eraill ar dudalen 2.

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 3: SYMUD O HONIAD I DDADL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

**Gellir dilyn Gweithgaredd 2 gan un sy'n gofyn i'r dysgwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau graddio Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG). Bydd hyn yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng honiad a dadl.**

**Honiad:** gosodiad neu farn nad ydyw'n cael ei hategu gan reswm neu fanylion ychwanegol.

**Dadl:** honiad a gyfiawnheir gan reswm neu fwy o fanylion ac sy'n egluro neu'n cyfiawnhau rhywbeth ac yn gwrthddweud dadleuon eraill.

**Er mwyn helpu i symud o honiad i ddadl,** darllenwch y cwestiwn enghreifftiol isod ac yna ategwch bob un o'r honiadau er mwyn ei droi'n ddadl.

**Ai mudiad y Swffragetiaid oedd y dylanwad pwysicaf ar y newid yn rôl a statws menywod yn y cyfnod 1880-1918?**

H1: Chwaraeodd mudiad y Swffragetiaid ran bwysig yn y newid yn rôl a statws menywod, 1880-1918.

**Ategwch yr honiad hwn**

H2: Mater arall i'w ystyried yw dylanwad mudiad y Swffragetiaid ar y newid yn rôl a statws menywod.

**Ategwch yr honiad hwn**

H3: Gellir dadlau mai'r dylanwad pwysicaf ar y newid yn rôl a statws menywod rhwng 1880 ac 1918 oedd y gwaith a wnaeth menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Ategwch yr honiad hwn**

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU DADL RESYMEGOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Wrth ystyried y cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu'r opsiwn hwn, disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion, gwerthuso'u pwysigrwydd ac yn gallu rhoi barn wedi'i chyfiawnhau sy'n cael ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd. Yn aml, gellir gwneud hyn ar y cyd â'r ymagwedd trafodaethau awgrymedig a welir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gellir defnyddio pob enghraifft o'r trafodaethau awgrymedig a nodir i fynd i'r afael â chysyniadau hanesyddol penodol a hefyd i helpu dysgwyr i ddatblygu dadl resymegol.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall athrawon a dysgwyr fynd ati i ddatblygu dadl resymegol wrth ateb cwestiwn gosod:

**I ba raddau cafodd y diwygiadau cymdeithasol ac economaidd mwyaf arwyddocaol yn y cyfnod 1900-1951 eu cyflwyno gan y llywodraeth Lafur, 1945-1951?**

**Nodweddion allweddol:**

Diwygiadau cymdeithasol ac economaidd o dan y llywodraethau Llafur, 1945-1951

Diwygiadau'r llywodraethau rhwng y rhyfeloedd, 1919-1939

Diwygiadau'r llywodraethau Rhyddfrydol, 1906-1914

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

Y polisi ar wladoli

Cyflwyno'r GIG

Maint y diwygiadau tai

Diwygiadau cysylltiedig â gwaith, yswiriant ac anafiadau

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

Cymdeithas ac economi tua 1900

Llywodraeth Ryddfrydol, 1906-1914

Materion a pholisïau wedi'r rhyfel, 1919-1931

Y llywodraeth Genedlaethol, 1931-1940

Y llywodraeth Lafur wedi'r rhyfel, 1945-1951

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad yn cynnwys gwerthuso arwyddocâd:**

Diwygiadau cymdeithasol ac economaidd y llywodraethau Rhyddfrydol, 1906-1914

Diwygiadau cysylltiedig â thai a chyflogaeth wedi'r rhyfel

Diwygiadau cyflogaeth a chymdeithasol gan y llywodraeth Genedlaethol ar ôl 1931

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, **llenwch y diagram sy'n dilyn** ar gyfer dau gwestiwn arall sydd wedi ymddangos ar gyn-bapurau arholiad ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Nodweddion allweddol:**

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

**Cwestiwn**

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad:**

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 5: CYSYLLTU CYNNWYS Â CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r astudiaeth o Hanes UG a Safon Uwch. Wrth ymateb i'w haseiniadau, mae dysgwyr yn aml yn methu â chanolbwyntio ar y cysyniadau allweddol yn eu hymatebion. Yn lle hynny maent yn rhoi gwybodaeth yn null naratif neu restr.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn deall bod cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 4 wedi'i gysylltu â'r cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu AA1. Dangosir y cysyniadau allweddol hyn isod gydag enghreifftiau o sut gellir defnyddio cynnwys yr opsiwn hwn i enghreifftio'r cysyniadau penodol hyn.

Edrychwch ar y fanyleb rydych yn ei hastudio ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 4. **Nodwch ddwy nodwedd arall o gynnwys y fanyleb a all enghreifftio pob cysyniad allweddol.**

Cofiwch y gellir defnyddio'r cynnwys penodedig i enghreifftio mwy nag un cysyniad os yw'n briodol.

| Cysyniadau allweddol | Enghreifftiau o gynnwys i enghreifftio'r cysyniadau hyn | |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | 1 | Y **prif resymau** dros ddiwygio cymdeithasol, 1880-1914 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Newid a pharhad | 1 | Y **newid** yn rôl a statws menywod, 1880-1980 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | 1 | **Cymharu** p'un ai oedd Prydain wedi dod yn gymdeithas decach i bawb rhwng 1945 ac 1980 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | 1 | **Arwyddocâd** addysg yn natblygiad yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, 1918-1980 |
| | 2 | |
| | 3 | |

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 6: ADNABOD CYSYNIADAU HANESYDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Bydd pob un o'r cwestiynau a osodir ar gyfer Uned 1 yn disgwyl i chi gyflwyno dadl dros gysyniad hanesyddol. I wneud hyn yn effeithiol dylech ddod yn grefftus wrth adnabod y cysyniad a'r gwerthusiad y mae'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

A allwch chi nodi'r cysyniad allweddol o'r cwestiynau enghreifftiol isod? Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau a'i ddangos mewn **print trwm.**

- Ydych chi'n cytuno mai'r **datblygiad pwysicaf** mewn gwleidyddiaeth plaid rhwng 1918 ac 1939 oedd ffurfio'r Llywodraeth Lafur Gyntaf yn 1924?
- I ba raddau cafodd mudiad y Swffragetiaid y dylanwad pwysicaf ar y newid yn rôl a statws menywod, 1903-1939?
- I ba raddau roedd effaith rhyfel yn bennaf gyfrifol am newidiadau mewn cymdeithas, 1880-1939?
- 'Rhwng 1939 ac 1980 daeth Prydain yn gymdeithas llawer tecach i bawb.' Trafodwch.
- I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r safbwynt mai'r profiadau o ryfel gafodd y dylanwad pwysicaf ar rôl a datblygiad menywod, 1903-1939?
- I ba raddau gellir ystyried mai dirywiad y blaid Ryddfrydol oedd y newid pwysicaf mewn gwleidyddiaeth plaid, 1914-1939?

Gallwch hefyd ddefnyddio cyfleuster Banc Cwestiynau CBAC i ymarfer adnabod y cysyniadau allweddol mewn amrywiaeth o hen gwestiynau eraill. Mae hwn ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/question-bank/index.html?language_id=2

© Hawlfraint y Goron 2018 

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 7: GOSOD CWESTIYNAU CYSYNIADOL PRIODOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn deall natur ehangach Uned 1 mae'n bwysig bod athrawon a dysgwyr yn ymgyfarwyddo â sut mae cwestiynau cysyniadol yn cael eu ffurfio, sut gellir eu brawddegu a sut gellir eu haddasu yn ôl pa faes o'r astudiaeth o gyfnod a addysgir. Cynigir y cyngor canlynol:

- dylai'r cwestiwn fod yn **fater prif ffrwd** sydd wedi'i enwi neu ei gysylltu'n agos â'r manylion yn y fanyleb. Ceisiwch beidio â gosod cwestiynau ar rannau mân neu ddibwys o'r fanyleb.
- Rhaid bod yna **ddigon o sylwedd** i'r prif fater a osodir fel y bydd yn hybu dadl fywiog ar y topig a astudir. Peidiwch â gosod mater y mae'n hawdd i'r dysgwyr ei ddiystyru
- dylai'r cwestiwn a osodir ymdrin â **chyfnod sylweddol o amser**
- dylai fod modd i'r dysgwyr **gynnal dadl** drwy gydol yr ateb
- dylai'r cwestiwn ganiatáu i'r dysgwyr ddangos bod ganddynt **ddealltwriaeth o'r cysyniad hanesyddol perthnasol** yn y cwestiwn
- dylai'r cwestiwn gynnwys **gair neu eiriau allweddol** a fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ffurfio barn gytbwys e.e. *'I ba raddau gellir dweud mai technoleg newydd oedd y dylanwad pwysicaf ar y newid yn rôl a statws menywod, 1903-1939?'*

Ffordd awgrymedig o ymdrin â'r agwedd hon ar ddysgu yw defnyddio'r rhestr wirio ganlynol pan osodir tasgau a chwestiynau ar gyfer y dysgwyr.

| Ydy'r cwestiwn a osodwyd yn... | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| amlygu mater prif ffrwd? | | |
| hyrwyddo ymgysylltu â dadl? | | |
| ymdrin â chyfnod sylweddol o amser? | | |
| canolbwyntio ar gysyniad hanesyddol allweddol? | | |
| cynnwys gair gwerthusol? | | |

© Hawlfraint y Goron 2018

Ceisiwch osod eich cwestiynau cysyniadol eich hun ar gynnwys Astudiaeth o Gyfnod 4. A allwch chi osod cwestiynau cysyniadol priodol ar y meysydd cynnwys canlynol?

- Maint y newid mewn cymdeithas ym Mhrydain, 1880-1951
- Y newid yn safle'r pleidiau gwleidyddol, 1880-1951
- Cymhariaeth o effaith y rhyfel ar gymdeithas yng Nghymru a Lloegr, 1900-1951
- Y newid yn natur yr economi a chyflogaeth yng Nghymru, 1918-1980
- Y dylanwadau ar y newid yn rôl a statws menywod ar ôl 1945

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, ceisiwch roi gradd CMG i'r nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â'ch cwestiynau.

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 8: GWERTHUSO GWAITH YN NULL TRAETHAWD

Dyma ddwy enghraifft o atebion i gwestiynau Uned 1 a osodwyd yn arholiadau 2017.

- Allwch chi gymhwyso’r rhestr wirio ar dudalen 11 y ddogfen Cyflwyno cysyniadau hanesyddol yn Uned 1 at y traethodau hyn?
- Ystyriwch gryfderau a chyfyngiadau pob traethawd.
- Ystyriwch sut gallech wella pob un a pha gyngor allech chi ei roi i’r dysgwr a’i hysgrifennodd.

© Hawlfraint y Goron 2018 

# Enghraifft batrymol 1

**I ba raddau cafodd mudiad y Swffragetiaid y dylanwad pwysicaf ar y newid yn rôl a statws menywod, 1903-1939?**

Rhwng 1903 ac 1939 esblygodd rôl a statws menywod ym Mhrydain wrth i'w lle mewn cymdeithas newid. Mae llawer yn dadlau mai mudiad y Swffragetiaid, sef sefydliad gwleidyddol milwriaethus ar gyfer menywod, oedd y dylanwad pwysicaf ar fenywod yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae yna ddylanwadau pwysig eraill na ddylid eu hanwybyddu. Estynnwyd y bleidlais yn 1918 ac yn 1928 i gynnwys menywod mewn bywyd gwleidyddol am y tro cyntaf. Er gwaethaf y dylanwadau pwysig hyn, mae'r traethawd hwn yn honni mai'r profiad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf o orfodi newid ar gymdeithas oedd y dylanwad pwysicaf ar rôl a statws menywod ar yr adeg hon, dylanwad oedd yn fwy na mudiad y Swffragetiaid a'r bleidlais.

Sefydlwyd mudiad y Swffragetiaid yn 1903 gan Emmeline Pankhurst i ymgyrchu dros bleidleisiau i fenywod, gan ddefnyddio tactegau oedd yn radical ac yn aml yn filwriaethus. Gellir dadlau mai'r Swffragetiaid oedd y dylanwad pwysicaf ar safle menywod yn y cyfnod hwn oherwydd iddynt ddefnyddio tactegau mynnu sylw fel torri ffenestri, torri ar draws ASau a chynnal cyfarfodydd mawr i gyrraedd y tudalennau blaen gan gadw'r mater o bleidlais i fenywod yn ganolog i ddadlau cyhoeddus. Roedd yr NUWSS yn ymgyrch arall mwy heddychlon dros y bleidlais ac roedd hwn yn hŷn na'r WSPU (y Swffragetiaid). Roedd eu technegau heddychlon a chyfansoddiadol wedi methu â gwneud cynnydd arwyddocaol tuag at ryddfraint. Bu'r Swffragetiaid mewn brwydr tra chyhoeddus gyda'r llywodraeth i ennill y bleidlais a llwyddwyd i gael trafodaeth ar dri Bil Cymodi yn y Senedd i ymestyn y bleidlais cyn 1914. Roedd y ddwy ymgyrch hyn yn effeithiol wrth herio'r farn draddodiadol nad oedd menywod yn gallu deall a chyfranogi mewn bywyd gwleidyddol. Fodd bynnag er gwaethaf y datblygiadau hyn, rhaid ystyried bod y Rhyfel Byd Cyntaf yn fwy arwyddocaol. Pan gychwynnodd y rhyfel yn 1914 gohiriodd y Swffragetiaid eu gweithgareddau milwriaethus a daethant yn rym gwladgarol pwysig yn ymdrech y rhyfel, gan gynnull y gweithlu benywaidd. Cafodd y broses lle gadawodd menywod y byd domestig a helpu i amddiffyn y wlad fwy o effaith ar rôl a statws menywod na mudiad y Swffragetiaid a oedd wedi methu o ran ei nodau cyn y rhyfel.

Er bod cyfraniad pwysig ymgyrchoedd y Swffragetiaid yn amlwg, trawsnewidiodd y Rhyfel Byd Cyntaf gymdeithas a rôl menywod ynddi. Dechreuodd economi Prydain ganolbwyntio ar ryfel llawn lle roedd pob rhan wedi ei chysegru i ymdrech y rhyfel. Gyda miliynau o ddynion yn cael eu galw i'r rheng flaen, gadawyd y menywod ar ôl i gadw'r wlad ar ei thraed. Daeth menywod dosbarth canol ac uchaf yn nyrsys neu feddygon gyda llawer yn gweithio am y tro cyntaf. Gweithiai menywod dosbarth gweithiol mewn ffatrïoedd arfau, yn gwneud gwaith peryglus wrth adeiladu'r arfau ar gyfer y rheng flaen. Mae pwysigrwydd menywod yn y fuddugoliaeth yn ddiamheuol gyda 90% o'r gweithwyr arfau rhyfel yn fenywod erbyn 1918. Roedd eu hymdrechion yn her uniongyrchol i werthoedd greddfol cymdeithas a fynnai bod rhaid i fenywod aros yn y cartref a pheidio â chwarae unrhyw ran mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn ystod y rhyfel, roedd menywod yn gweithredu ym

mron pob rhan o'r byd cyhoeddus ac am fod y dynion i ffwrdd yn ymladd, cawsant brofi gwir annibyniaeth am y tro cyntaf. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd yn ystod y rhyfel, collwyd llawer o'r cynnydd hwnnw wedyn. Gorfododd y Ddeddf Adfer Arferion Cyn-Rhyfel menywod i adael eu gwaith er mwyn rhoi lle i ddynion a chawsant eu rhwystro hefyd gan 'deneuo' – ble byddai llawer o fenywod di-grefft yn gwneud gwaith dyn medrus am gyflog is. Er bod y rhain yn anawsterau arwyddocaol, rhaid ystyried y rhyfel o hyd fel y prif ddylanwad ar rôl a statws menywod yn y cyfnod hwn. Torrodd y rhyfel yr hen rwystrau greddfol i lawr am y tro cyntaf gan ostwng mynychder y safon ddwbl rywiol. Cyn y rhyfel, nid oedd atalwyr cenhedlu ar gael y tu allan i Lundain: erbyn 1919 roeddent ar gael ym mhob fferyllydd pentref. Treblodd y cyfraddau ysgariad gan nad oedd menywod bellach yn ofni bod yn annibynnol. Er na lwyddodd y rhyfel i gyflawni rhyddfreinio i fenywod dros nos, gwnaeth welliannau arwyddocaol i statws menywod, gan roi'r hyder i lawer gwestiynu'r status quo ar gyfer y degawdau dilynol.

Mae effaith anferth y rhyfel yn amlwg. Fodd bynnag mae llawer yn dadlau bod rhoi'r bleidlais i fenywod yn 1918 ac 1928 wedi cael mwy o effaith ar safle menywod. Enillodd menywod dros 30 oedd yn meddu ar eiddo y bleidlais yn 1918 a chymerodd yr AS benywaidd cyntaf ei sedd yn 1922. Pasiwyd deddfwriaeth ar ôl 1918 a wnaeth welliannau arwyddocaol i statws cyfreithiol menywod na fyddai wedi bod yn bosibl heb y nifer gynyddol o etholwyr oedd yn fenywod. Rhwystrodd Deddf Dileu Anghymwyso ar sail Rhyw 1919 cyflogwyr rhag gwahaniaethu yn erbyn menywod ar sail eu rhyw. Hefyd agorodd yrfaoedd yn y gyfraith ac mewn cyfrifeg i fenywod am y tro cyntaf. Yn 1923 cawsant statws cyfartal gyda dynion yn ystod ysgariad a chael yr hawl i etifeddu yn gyfartal â dynion. Yna yn 1928 rhyddfreiniwyd pob menyw. 'Etholiad y Flappers', fel y cafodd ei alw, yn 1929 oedd yr etholiad cyntaf lle bu'n rhaid i wleidyddion ymgyrchu dros faterion menywod er mwyn ennill eu nifer sylweddol o bleidleisiau. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau amlwg hyn, nid oeddent mor arwyddocaol ag effaith y rhyfel. Ni newidiodd y rôl y gallai menywod ei chwarae mewn cymdeithas yn sylweddol wrth ennill y bleidlais. Anwybyddwyd deddfau gwahaniaethu ar sail rhyw gan lawer o gyflogwyr gan orfodi menywod i ymadael. Yn amlwg, byddai angen mwy o newid i wella rôl a statws menywod na chael mynediad at y blwch pleidleisio'n unig. Roedd deddfwriaeth yn adlewyrchu newid cymdeithasol yn hytrach na'i sbarduno. Y Rhyfel Byd Cyntaf oedd y catalydd ar gyfer y newid roedd ei angen ar fenywod. Gadawsant eu cartrefi a mynd allan i weithio. Llwyddodd eu hymdrechion yn ystod y rhyfel i gyfrannu'n sylweddol at ennill y bleidlais yn y lle cyntaf. Felly rhaid ystyried o hyd mai'r rhyfel oedd y dylanwad pwysicaf ar rôl a statws menywod yn y cyfnod hwn.

Roedd y Swffragetiaid yn fenywod beiddgar a dewr a arweiniodd ymgyrch pwysig dros hawliau menywod. Fodd bynnag caiff eu hymdrechion eu bwrw i'r cysgod gan effaith aruthrol y rhyfel ar chwyldroi safle menywod. O ganlyniad i'r rhyfel, magodd menywod hyder fel y gwelir yn nhystiolaeth gweithiau Virginia Woolf yn yr 1920au ac yn llawer o'r ymdrechion a ddilynodd i wir gyflawni rhyddfreinio menywod. Nid oes unrhyw amheuaeth mai'r Rhyfel Byd Cyntaf oedd y dylanwad pwysicaf ar rôl a statws menywod rhwng 1903 ac 1939.

## Enghraifft batrymol 2

**I ba raddau oedd effaith rhyfel yn bennaf gyfrifol am newidiadau mewn cymdeithas, 1880-1939?**

Yn yr 1880au mabwysiadodd y llywodraeth ymagwedd laissez-faire a olygai nad oeddent yn ymglymu wrth bobl eu cenedl rhag ofn iddynt fynd yn ddiog. Roedd Samuel Smiles, a fabwysiadodd y dyfyniad "Heaven helps those who help themselves", yn credu'n gadarn yn y gred laissez-faire. Ar yr adeg hon, roedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn cael ei hystyried yn genedl gryfaf y byd, oherwydd y meintiau anferth o fewnforion ac allforion yn mynd i mewn ac allan o'r wlad a'r nifer fawr o drefedigaethau oedd yn perthyn i Brydain.

Fodd bynnag roedd yr ymagwedd laissez-faire hon yn drychinebus i bobl y genedl. Roedd diweithdra'n uwch nag erioed o'r blaen, roedd pobl yn byw mewn slymiau oedd yn anaddas i bobl fyw ynddynt. Arweiniodd hyn at afiechyd, cyfraddau marwolaethau plant uchel a phobl oedd yn rhy sâl i weithio. Effeithiwyd yn galed ar bobl oedrannus hefyd gan nad oedd pensiynau ac ni fu llawer fyw yn hir ac roedd llawer ohonynt yn gweithio mewn tlotai.

Cyhoeddwyd adroddiad gan Booth a Rowntree a ddangosodd nad oedd plant yn cael eu hamddiffyn a gallent fynd i farrau, ysmygu ac yfed ac yn y pen draw glanio mewn carchardai i oedolion. Oherwydd hyn, dechreuodd y llywodraeth gael y syniad nad oedd eu hymagwedd laissez-faire yn gweithio. Yn gyntaf Ddeddf Addysg i blant ei chyflwyno gan wneud ysgolion cynradd yn orfodol. Fodd bynnag y cyfan wnaeth hyn oedd amlygu cyflwr erchyll y genedl. Roedd y plant oedd yn mynychu'r ysgolion cynradd yn llawn clefydau, heb fod yn rhy lân, ac yn rhy wan i aros ar ddihun yn ystod gwersi oherwydd diffyg bwyd. Amlygodd hyn ymhellach mor wael oedd cyflwr y genedl.

Yn 1899 aeth Prydain i Dde Affrica i chwilio am aur, fodd bynnag daeth ar draws Cyfaneddwyr o'r Iseldiroedd (y Boeriaid) oedd yn berchen ar y lle. Arweiniodd hyn at Ryfel y Boer, roedd y llywodraeth yn sicr iawn y byddai'n rhyfel hawdd. Fodd bynnag roeddent yn anghywir. Roedd tua 20,000 ffermwyr Boeraidd yn erbyn 250,000 o filwyr Prydeinig. Enillodd Prydain Rhyfel y Boer ond nid heb gywilydd mawr. Cymerodd dros 3 blynedd, costiodd tua 5 miliwn ac o blith y 2 filiwn o ddynion a wirfoddolodd, gwrthodwyd mwy na'u hanner oherwydd eu bod yn anffit. Ac yn ogystal â hyn, Rhyfel y Boer oedd y rhyfel a gafodd y cyhoeddusrwydd mwyaf felly dangoswyd i wledydd eraill nad oedd yr Ymerodraeth Brydeinig mor gryf â'r hyn y credwyd. Sylweddolodd y llywodraeth bod rhaid cyflawni newid gan fod cyflwr y genedl yn wael iawn. Roedd effaith y rhyfel yn bwysig iawn ar gyfer newid mewn cymdeithas oherwydd sbardunodd y llywodraeth i weithredu, o'r diwedd, oherwydd gallai Prydain gael ei herio'n hawdd (yr Almaen) a gallai golli eu goruchafiaeth. Arweiniodd hyn at ddeddfau fel Deddf Tai Wheatley (Rhyddfrydol) yn 1924 a berodd i fwy na 500,000 tai gael eu hadeiladu, ac at greu'r Grid Cenedlaethol yn 1920, sef grid trawsyrru trydan foltedd uchel cenedlaethol. Ond roedd y cyfnod cyn y rhyfel hefyd yn bwysig oherwydd y newid mewn cymdeithas gan iddo gwestiynu p'un ai fod yr ymagwedd laissez-faire yn wir briodol.

© Hawlfraint y Goron 2018 

© Hawlfraint y Goron 2018